

Prosiect menter ar y cyd sy'n
cael ei ddatblygu gan

RWE

y diweddaraaf o'r ystafell newyddion

Chwefror 2024



Fferm Wynt Alltraeth

AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

Chwefror 2024

Croeso

Croeso i gylchlythyr cyntaf Awel y Môr ar gyfer 2024.

Mae hi am fod yn flwyddyn brysur i'r prosiect, gyda gwaith archwilio safle yn parhau ar y môr a mwy o archwiliadau safle a gwaith archaeolegol ar y tir wedi'u cynllunio ar gyfer y gwanwyn a'r haf.

Byddwn hefyd yn paratoi cynefin newydd ar gyfer y boblogaeth fach o fadfallod dŵr cribog sydd wedi'u canfod yn agos at yr is-orsaf ar y tir.

Mae gennym newyddion hefyd am ein harchwiliadau parhaus i'n safle ar y môr a rhywfaint o wybodaeth am aelod newydd o dîm Awel y Môr. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar y cylchlythyr hwn.

Rhaglen STEP

Os ydych chi'n rhan o gwmni sy'n gweithio ym maes ynni gwynt ar y môr neu os hoffech chi gael gwybod sut gallwch gael clywed am yr holl gyfleoedd yng nghadwyn gyflenwi Awel y Môr, dylech ystyried cofrestru ar gyfer Rhaglen Ymgysylltu Tryloywder Cyflenwyr RWE.

Mae'r rhai sydd wedi cofrestru yn rhan o gronfa ddata sydd â swyddogaeth chwilio agored ynghyd â chyflenwyr eraill, ac maent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a chyfleoedd rheolaidd i gwrdd â'n rheolwyr cadwyn gyflenwi.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: <https://awelymor.cymru/suppliers/?lang=cy>

Gwaith Paratoi

SMae arolygon a gynhaliwyd dros y blynnyddoedd diwethaf wedi cadarnhau niferoedd bach o fadfallod dŵr cribog yn rhai o'r pyllau o amgylch safle'r is-orsaf ar y tir. Madfallod dŵr cribog yw'r fadfall ddŵr fwyaf yn y DU ac maent yn rhywogaeth a warchodir.

Er ein bod yn dal i fod ymhell o ddechrau adeiladu fferm wynt Awel y Môr, mae'r gwaith paratoi yn aml yn dechrau fisoedd ymlaen llaw, felly dros y gwanwyn a'r haf, byddwn yn gosod ffensys o amgylch safle'r is-orsaf i baratoi cynefin newydd ar gyfer y madfallod dŵr mewn cae cyfagos, wrth ymyl Gwarchodfa Natur Glascoed. Byddwn wedyn yn symud unrhyw fadfallod y byddwn yn dod o hyd iddynt cyn iddynt aeafgysgu.

Byddwn hefyd yn creu rhywfaint o waith i 'ffosydd prawf' archaeolegol o amgylch yr is-orsaf i archwilio i archaeoleg bosibl sydd wedi'i chladdu yn yr ardal, yn ogystal â drilio rhai tyllau turio i gymryd samplau o bridd. Bydd yr holl archwiliadau'n cael eu cynnal dan yr oruchwyliaeth gywir i sicrhau nad oes unrhyw darfu ar y madfallod dŵr.

Yn ogystal â lleoliad yr is-orsaf, byddwn hefyd yn cymryd samplau o dyllau turio ar hyd y llwybr ceblau 12km - yr holl ffordd i draeth Ffrith, i'r dwyrain o'r Rhyl, gan gymryd tua 60 o samplau gan ddefnyddio rig drilio bach. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ddechrau haf 2024, gyda'r canlyniadau'n cael eu defnyddio i helpu i gwblhau'r dulliau ar gyfer gosod ceblau.





Bydd y gwaith archwilio safle yn digwydd yn yr ardaloedd melyn hyn.

Beth yw ffosydd prawf archaeolegol a pham rydym yn eu creu

Er bod archaeoleg bob amser wedi deillio o'r angen i gadw ac i ddogfennu hanes yn wyneb byd sy'n newid, mae wedi bod yn rhan ffurfiol o geisiadau datblygu ers y 1990au.

Ymchwil yw cam cyntaf unrhyw archwiliad archaeolegol; ymchwilio i hen gofnodion (a rhai newydd) o fapiau ac unrhyw ganfyddiadau. Yndilyn hyn, argyferprosiect mawr fel Awely Môr, mae arolygon geoffisegol yn cael eu cynnal. Mae'r rhain yn defnyddio technoleg anymwithiol fel magnetometreg (sy'n defnyddio newidiadau yng ngrymoedd magnetig y ddaear i helpu i nodi unrhyw ardaloedd posibl o dan y ddaear a fyddai o ddiddordeb i ni).

Yna, bydd cyfres o ffosydd prawf yn cael eu tyllu gan beiriant, rhai oherwydd yr "archaeoleg bosibl" a nodwyd gan yr arolygon geoffisegol. Cytunwyd ar leoliadau ein ffosydd ymlaen llaw gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd Powys. Mae unrhyw olion archaeolegol yn cael eu cofnodi ac mae rhai'n cael eu tynnu â llaw i'w harchwilio ymhellach. Pan fydd gwaith cloddio mewn ffos wedi'i gwblhau, mae'r tir yn cael ei adfer.

Roedd fferm wynt Triton Knoll oddi ar arfordir Swydd Lincoln, a oedd hefyd dan arweiniad RWE, wedi datgelu cyfres o arteffactau o'r cyfnod Rhufeinig ac o'r Oes Efydd, gan gynnwys tri sgerbwd Rhufeinig, pen bwyell, offer ffermio hynafol a rhannau o offeryn cerddorol.

Rheolwr cydsyniadau newydd ar y tir yn ymuno â thîm Awel y Môr

Mae Hayley Meadley yn ymuno ar ôl gweithio'n fwyaf diweddar ar Fferm Wynt Sofia dan arweiniad RWE ym môr y gogledd; yn benodol ar lwybr cebl allforio ar y tir ac ar y môr, a fydd yn un o'r ffermydd gwynt mwyaf ar y môr yn y byd.

Mae Hayley wedi gweithio yn y diwydiant ynni adnewyddadwy ers dros 20 mlynedd, gan lwyddo i symud nifer o brosiectau ar y tir yn yr Alban o'r cam cychwynnol i'w adeiladu a'u rhoi ar waith.

Wedi'i lleoli yng Ngorllewin Swydd Gaerhirfryn, mae'n ymweld yn rheolaidd â Gogledd Cymru gyda'i theulu a dau gi, ac yn ddiweddar mae wedi dechrau dysgu Cymraeg.

Dywedodd Hayley: "Ar ôl datblygu fy ngyrfa ym maes ynni adnewyddadwy, rwy'n falch o allu dod â'r sgiliau hynny i brosiect sy'n agos at adref.

"Mae Gogledd Cymru yn rhan eithriadol o hardd o'r byd gyda hanes hir o arloesi ym maes ynni adnewyddadwy yn mynd yn ôl dros ganrif, ac rwy'n falch iawn i gael bod yn rhan o'r camau nesaf."



Seafox 7 yn y doc

Profi tyllau turio yn parhau ar wely'r môr

Mae'r Seafox 7 yn parhau â'i raglen archwilio safle yn yr ardal lle bydd tyrbinau Awel y Môr yn cael eu lleoli.

Roedd y cwch codi, sy'n cael ei weithredu gan y contractwyr Fugro, wedi hwylio o Borthladd Caergybi ddiwedd 2023.

Mae'r archwiliad safle'n cynnwys drilio a chymryd samplau o dyllau turio, a fydd yn cael eu dadansoddi er mwyn cyfrannu at ddulliau adeiladu'r fferm wynt, sy'n angenrheidiol oherwydd natur gymhleth y ddaear o dan wely'r môr.

Cyn pob gwaith drilio unigol, mae'r cwch yn cael ei symud yn ofalus iawn gan ddau fad tynnu, "Fairplay 32" ac "Elisa" cyn gollwng ei goesau i wely'r môr a chodi ei hun uwchben y tonnau, gan sicrhau safle sefydlog i ddefnyddio'r craen sydd ar y cwch. Yna, bydd y twll turio yn cael ei ddrilio a bydd y sampl yn cael ei dynnu cyn i'r cwch symud i'r lleoliad nesaf.

Edrychir ar bob sampl graidd ar y cwch i nodi'r gwahanol haenau o greigiau, maint a lliw'r gronynnau, a chaiff arsylwadau rhagarweiniol eraill eu cymryd hefyd. Yna, mae'r sampl yn cael ei gludo ar y tir i labordy, lle mae'n cael ei brofi i weld pa mor hydraidd a chadarn ydyw, ynghyd ag arsylwadau pellach o'i gynnwys materol.

Mae'r tywydd stormus wedi arwain at rywfaint o oedi i raglen waith y cwch, sydd bellach yn debygol o barhau tan ddiwedd y gwanwyn.

Rydym yn cysylltu'n aml â physgotwyr a morwyr eraill i sicrhau os byddwn yn cael unrhyw effaith ar eu gwaith, y byddwn yn ei chadw i'r lleiafswm posibl.

Amserlen gweithgarwch ar gyfer 2024

Tachwedd 2023 – Mai 2024

Archwiliadau i Safleoedd ar y Môr. Rhagor o arolygon pellach drwy gydol y flwyddyn

Mawrth - Gorffennaf 2024

Archwiliadau ar y Tir (tyllau turio) ar hyd y llwybr ceblau i'r traeth ac yn yr is-orsaf

Mai – Mehefin 2024

Ffosiudd prawf archaeolegol (is-orsaf ar y tir yn unig)

Gorffennaf - Medi 2024 (dangosol)

Ffensio ar gyfer madfalloedd dŵr cribog

* mae pob dyddiad yn ddangosol ac mae'n bosibl y byddant yn newid

RWE a datblygiadau eraill yng Ngogledd Cymru

Yn ogystal â datblygu Awel y Môr, mae Gogledd Cymru yn cynnal nifer o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a datblygiadau ynni eraill sy'n symud ymlaen drwy eu prosesau cynllunio eu hunain.

Yn ddiweddar, cwblhaodd prosiect Fferm Wynt Alwen 60MW RWE gyfnod ymgynghori cyhoeddus ffurfiol wyth wythnos, a gafodd ei gynnal rhwng 13 Rhagfyr a 7 Chwefror.

Os rhoddir cydsyniad cynllunio, gallai'r prosiect naw tyrbîn ger Llyn Brenig gynhyrchu pŵer sy'n cyfateb i anghenion 63,500 o gartrefi erbyn 2028.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: www.rwe.com/alwen

Mewn manau eraill, bydd prosiect MaresConnect, a allai ddarparu cysylltiad trydan 750MW rhwng Gogledd Cymru ac Iwerddon, yn cynnal ei ddigwyddiadau ymgynghori cyhoeddus ei hun yng Ngogledd Cymru ym mis Chwefror.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma **www.maresconnect.ie**

Bydd tîm prosiect Awel y Môr yn parhau i gysylltu â datblygwyr eraill sy'n gweithio yn y rhanbarth wrth i'n cynlluniau fynd rhagddynt.

Fe wnaeth prosiect Fferm Wynt Alwen gynnal dau ddigwyddiad ymgynghori: un yng Ngherrigydrudion a'r ail yn Nantglyn ger Dinbych



Fferm Wynt Alltraeth

AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

0800 197 8232

awelamor@rwe.com